Awst 2010
www.wao.gov.uk

WALES AUDIT OFFICE
SWYDDFA ARCHWILIO CYMRU

# Comisiwn Coedwigaeth Cymru
## Arian Cyhoeddus Coetir Ffynone a Chilgwyn



Rwyf wedi llunio'r adroddiad hwn i'w gyflwyno i Gynulliad Cenedlaethol Cymru o dan Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998.

Cynhwysai tîm astudio Swyddfa Archwilio Cymru a'm cynorthwyodd i lunio'r adroddiad hwn Jason Blewitt, o dan gyfarwyddyd Ceri Stradling.

**Gillian Body**
**Archwilydd Cyffredinol Cymru**
**Swyddfa Archwilio Cymru**
**24 Heol y Gadeirlan**
**Caerdydd**
**CF11 9LJ**

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cymru yn gwbl annibynnol ar y Cynulliad Cenedlaethol Cymru a Llywodraeth Cynulliad Cymru. Hi sy'n archwilio ac yn ardystio cyfrifon Llywodraeth Cynulliad Cymru a'r cyrff cyhoeddus a noddir ganddo ac sy'n gysylltiedig ag ef, yn cynnwys cyrff y GIG yng Nghymru. Mae ganddi hefyd y pŵer statudol i gyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar economi, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y defnydd a wna'r sefydliadau hynny o'u hadnoddau wrth gyflawni eu swyddogaethau, a sut y gallent wella'r defnydd hwnnw.

Mae'r Archwilydd Cyffredinol Cymru hefyd yn penodi archwilwyr i gyrff llywodraeth leol yng Nghymru, yn cynnal ac yn hyrwyddo astudiaethau gwerth am arian yn y sector llywodraeth leol ac yn asesu cydymffurfiaeth â gofynion gwella statudol. Fodd bynnag, er mwyn amddiffyn sefyllfa gyfansoddiadol llywodraeth leol, nid yw'n cyflwyno adroddiadau i Gynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n ymwneud yn benodol â gwaith llywodraeth leol ei hun heblaw am pan fo angen gwneud yn ôl statud.

Yr Archwilydd Cyffredinol Cymru a'i staff gyda'i gilydd yw Swyddfa Archwilio Cymru. Am ragor o wybodaeth am Swyddfa Archwilio Cymru, ysgrifennwch at yr Archwilydd Cyffredinol Cymru yn y cyfeiriad uchod, ffôn 029 2032 0500, e-bost: info@wao.gov.uk, neu gweler y wefan www.wao.gov.uk

© Archwilydd Cyffredinol Cymru 2010

Cewch ailddefnyddio'r cyhoeddiad hwn (heb gynnwys y logos) yn rhad ac am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng. Rhaid i chi ei ailddefnyddio'n gywir ac nid mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint Archwilydd Cyffredinol Cymru a rhaid rhoi teitl y cyhoeddiad hwn. Lle nodwyd deunydd hawlfraint unrhyw drydydd parti bydd angen i chi gael caniatâd gan ddeiliaid yr hawlfraint dan sylw cyn ei ailddefnyddio.

**Adroddiad a gyflwynwyd gan Archwilydd Cyffredinol Cymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ar 17 Awst 2010.**

**Roedd yr arian a ddyfarnwyd i Calon yn bodloni amodau lefel uchel y cynllun grant, ond nid oedd meini prawf na gweithdrefnau'r cynllun ar gyfer adolygu ceisiadau yn ddigon cadarn, gan gynyddu'r risg na ellir diogelu'r buddsoddiad cyhoeddus sylweddol hwn.**



# Cynnwys


## Crynodeb 5

Argymhellion 7

## Prif adroddiad 8

Bodlonodd y prosiect yr amodau lefel uchel ar gyfer arian yr UE ond oherwydd gwendidau yng ngofynion penodol cynllun Cydcoed cynyddodd y risg na fyddai'r ymgeisydd yn cynrychioli'r gymuned mewn gwirionedd 8

Roedd rhai o weithdrefnau Cydcoed yn ddiffygiol ac ni chafodd rhai o'r gweithdrefnau a oedd ar waith eu cymhwyso'n gadarn, gan arwain at gymeradwyo cais a fethodd â bodloni holl ofynion y cynllun na lliniaru risgiau i fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol yn llawn 10

Ansicr yw'r cynnydd yn erbyn targedau a'r canlyniadau arfaethedig ar hyn o bryd 14



# Crynodeb

**1** Mae Comisiwn Coedwigaeth Cymru (y Comisiwn) yn rhoi grantiau i sefydliadau trydydd parti o dan amrywiol raglenni i helpu i gyflawni amcanion strategaeth Coetiroedd i Gymru Llywodraeth y Cynulliad.

**2** Caiff rhai o'r rhaglenni hyn eu hariannu gan gynlluniau'r Undeb Ewropeaidd (UE) a weinyddir gan Swyddfa Cyllid Ewropeaidd Cymru (WEFO), rhai gan Gronfa Amaethyddol Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig (EARFD) ac eraill gan ddyraniad adnoddau blynyddol Llywodraeth y Cynulliad.

**3** Rhwng 2003 a 2008, cafodd Rhaglen Cydcoed II (Cydcoed) ei sefydlu a'i rhoi ar waith gan y Comisiwn a'i nod oedd helpu grwpiau cymunedol i wella coetir lleol a bywydau pobl drwy:

- **a** ddarparu swyddi a chyfleoedd newydd;
- **b** grymuso cymunedau;
- **c** hyrwyddo adloniant iach, addysg a chadwraeth;
- **ch** gwella a chreu coedwigoedd.

**4** Mae’r rhaglen Cydcoed yn targedu’r cymunedau mwyaf difreintiedig yng Nghymru a’r rhai lle nad oes fawr neu ddim mynediad i fannau gwyrdd cymunedol. Yn y cymunedau hyn, mae’r rhaglen yn bwriadu:

- **a** gwneud mannau coetir presennol yn fwy hygyrch;
- **b** datblygu mannau coetir ychwanegol;
- **c** maethu cyfranogiad y gymuned yn natblygiad cynaliadwy o goetiroedd.

**5** Roedd y rhaglen yn cynnig grantiau o hyd at 100 y cant o gostau i grwpiau cymunedol yn y rhanbarth Amcan 1 Ewropeaidd gan eu helpu i ddefnyddio coetiroedd ar gyfer datblygu cymunedol. Lansiwyd Cydcoed, gyda £12 miliwn o arian gan yr UE o dan Amcan 1 a Llywodraeth y Cynulliad, ym mis Ionawr 2003 gan barhau tan fis Medi 2008.

**6** Cyflwynodd y Comisiwn ei gais terfynol i WEFO ar gyfer cynllun Cydcoed ar 28 Ionawr 2003. Roedd yn cynnwys disgrifiad manwl o'r prosiect ynghyd â nodau allweddol, blaenoriaethau a mesurau.

**7** Cymeradwywyd y cais gan WEFO mewn llythyr cynnig, dyddiedig 30 Ionawr 2003, a dyfarnwyd grant gwerth tua £4.2 miliwn o dan Amcan 1 yn erbyn gwariant cymwys o £13.7 miliwn i'w hawlio dros gyfnod y rhaglen. Roedd cynllun Ffordd i Ffyniant Llywodraeth y Cynulliad ar gael i dalu am weddill y gwariant cymwys. Felly roedd ymgeiswyr yn gallu hawlio hyd at 100 y cant o'u costau cymwys.

**8** Lleolir Coetir Ffynone a Chilgwyn yng ngogledd sir Benfro. Ym mis Gorffennaf 2006, cyflwynodd Calon yn Tyfu Cyf (Calon), sef cwmni cydweithredol i weithwyr a chwmni cyfyngedig drwy warant, gais llawn o dan Cydcoed i'r Comisiwn. Ym mis Medi 2006, cymeradwyodd y Comisiwn grant o £502,000, gan ei dalu mewn dau randaliad ym mis Hydref a mis Tachwedd 2006.

**9** Wedyn cafodd Calon gymeradwyaeth am swm ychwanegol o £236,177 ar gyfer gwaith gwella o dan gynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru. Telir yr arian hwn i Calon wrth i'r gwaith gael ei gwblhau yn unol â chynllun rheoli cymeradwy. Cyflwynwyd Coetiroedd

Gwell i Gymru yn 2007 gan ddisodli Cynllun Grant Coetiroedd i'r DU gyfan ac mae'n cefnogi gwelliannau i goetiroedd. Mae Llywodraeth y Cynulliad a Chronfa Amaethyddiaeth Ewrop ar gyfer Datblygu Gwledig yn ariannu Coetiroedd Gwell i Gymru ac mae ei feini prawf yn amlwg yn gyson ag amcanion y strategaeth Coetiroedd i Gymru. Archwiliwyd Coetiroedd Gwell i Gymru fel rhan o'n hadroddiad gwerth am arian ar Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru a gyhoeddwyd yn 2008. Mae argymhellion yr adroddiad hwnnw yn gymwys o hyd a byddwn yn ystyried y cynnydd a wnaed yn ystod 2010.

**10** Archwiliwyd ceisiadau am grant o dan Gronfeydd Strwythurol yr UE ar gyfer Cydcoed ar gyfer 2005-06 i 2008-09. Yn unol â gofynion safonol ceisiadau o'r fath, cyfyngwyd yr archwiliad i sicrhau bod gwariant:

**a** yn cydymffurfio â llythyr cynnig WEFO;

**b** yn gymwys, yn unol â'r llythyr cynnig;

**c** wedi'i dalu[1];

**ch** heb gynnwys TAW.

**11** Nid oedd yn ofynnol i ni adolygu gweithdrefnau na chanllawiau sylfaenol cynllun Cydcoed. Cadarnhaodd yr archwiliad gydymffurfiaeth â gofynion WEFO ac eithrio'r ffaith nad oedd ymgeiswyr wedi talu gwariant cyn i'r Comisiwn ddyfarnu'r grant. Hysbyswyd WEFO am yr amrywiad hyn gennym er i ni fod ar ddeall bod WEFO wedi derbyn y methiant hwn i gydymffurfio â'r gofyniad oherwydd natur cynllun Cydcoed (grantiau i grwpiau cymunedol bach heb yr adnoddau i wneud taliadau mawr i drydydd parti cyn i'r grantiau gael eu dyfarnu iddynt).

**12** Ym mis Ionawr 2009, cyflwynodd Tîm Archwilio Cronfeydd Strwythurol Llywodraeth y Cynulliad adroddiad ar adolygiad o lywodraethu Cydcoed gan gynnwys adolygiad o weithdrefnau mewnol priodol. Roedd yr adolygiad hynny ar ôl i Cydcoed ddod i ben ym mis Tachwedd 2008. Profodd yr adolygiad sampl o geisiadau Cydcoed ac ni nodwyd unrhyw broblemau sylweddol. Ni cheir tystiolaeth bod y tîm adolygu wedi edrych yn benodol ar gais Calon.

**13** Ym mis Gorffennaf 2009, cysylltodd aelodau o'r gymuned leol a Chadeirydd Pwyllgor Deisebau'r Cynulliad Cenedlaethol â ni ar sail gohebiaeth debyg i ohebiaeth a anfonwyd at y pwyllgor. I grynhoi, y prif bryderon oedd bod yna fethiannau difrifol mewn cysylltiad â'r grant a ddyfarnwyd i Calon megis:

**a** dyfarnu grant a lywiwyd ar gyfer grwpiau cymunedol i gwmni preifat heb ymgynghoriad cymunedol cyn dyfarnu’r grant;

**b** bod llawer o'r wybodaeth a ddarparwyd i ategu'r cais am arian yn camarwain yn fwriadol, yn camliwio ac yn anghywir;

**c** nad oedd y broses grant yn dryloyw.

**14** Mewn ymateb i'r pryderon hyn rydym wedi ystyried a oedd yr arian cyhoeddus a ddyfarnwyd i Calon gan y Comisiwn yn briodol, yn ddiduedd ac yn unol â'r meini prawf y cytunwyd arnynt. Gwnaeth Cyfarwyddwr y Comisiwn hefyd fynegi ei awydd i gael y pryderon hyn wedi’u harchwilio yn annibynnol.

**15** Rydym wedi dod i'r casgliad bod yr arian i Calon wedi bodloni amodau lefel uchel y cynllun grant, ond nad oedd meini prawf na gweithdrefnau'r cynllun ar gyfer adolygu ceisiadau yn ddigon cadarn, gan gynyddu'r risg na ellir diogelu'r buddsoddiad cyhoeddus sylweddol hwn. Daethom i'r casgliad hwn oherwydd:

1 Gwariant sydd wedi’i dalu.



a bodlonodd y prosiect yr amodau lefel uchel ar gyfer arian yr UE ond oherwydd gwendidau yng ngofynion penodol cynllun Cydcoed cynyddodd y risg na fyddai'r ymgeisydd yn cynrychioli'r gymuned mewn gwirionedd;

b roedd rhai o weithdrefnau Cydcoed yn ddiffygiol ac ni chafodd rhai o'r gweithdrefnau a oedd ar waith eu cymhwyso'n gadarn, gan arwain at gymeradwyo cais a fethodd â bodloni holl ofynion y cynllun na lliniaru risgiau i fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol yn llawn;

c ansicr yw'r cynnydd yn erbyn targedau a'r canlyniadau arfaethedig ar hyn o bryd.

## Argymhellion

16 Dylai'r Comisiwn weithio gyda Calon i ystyried opsiynau ar gyfer:

a mwy o gyfraniad gan y gymuned yn y broses gwneud penderfyniadau ar gyfer y coetir i gynnwys cynrychiolaeth gymunedol ar fwrdd Calon ee, fel cyfarwyddwyr anweithredol;

b diogelu'r ased ar gyfer y gymuned leol a phwrs y wlad yn y tymor hwy.

17 Mae'r Comisiwn wedi cydnabod bod angen prosesau rheoli prosiect cadarnach o ran cynlluniau grant sy'n defnyddio methodoleg PRINCE2[2]. Dylai'r Comisiwn, gan adeiladu ar y fethodoleg hyn, sicrhau bod prosesau ar waith i ddarparu sicrwydd bod y gweithdrefnau hyn yn cael eu cymhwyso'n effeithiol at bob cynllun newydd a phob cynllun sy'n bodoli eisoes cyn gynted â phosibl.

18 Dylai fod yn ofynnol i staff y Comisiwn gwblhau ffurflen Datganiad Blynyddol o Fuddiant a ddylai gael ei hadolygu a'i hawdurdodi gan aelod o'r Bwrdd Rheoli er mwyn asesu goblygiadau i feysydd gwaith yn y dyfodol. Dylai fod yn ofynnol i staff ddiweddaru'r rhain yn ystod y flwyddyn pan gyfyd amgylchiadau priodol.

19 Dylid rhoi canllawiau i staff o bryd i'w gilydd ynghylch gofynion Datganiadau o Fuddiant a Rhoddion a Lletygarwch er mwyn sicrhau bod staff yn ymwybodol o hyd o'u cyfrifoldebau.

20 Dylai'r Comisiwn, gan adeiladu ar yr argymhellion a godwyd yn adroddiad cenedlaethol Swyddfa Archwilio Cymru, sicrhau bod pob aelod o staff yn cael hyfforddiant priodol mewn rheoli risg o bryd i'w gilydd.

21 Dylai'r Comisiwn sicrhau y caiff trefniadau monitro ar gyfer cynllun Cydcoed eu cymhwyso'n gadarnach yn y dyfodol.

22 Dylai targedau a bennir ar gyfer cynlluniau yn y dyfodol fod yn gadarn ac yn heriol er mwyn sicrhau bod y cyhoedd yn cael gwerth priodol am arian a ddyfernir.

23 Dylai'r Comisiwn sicrhau y caiff graddau risg ar gyfer ceisiadau Coetiroedd Gwell i Gymru a wnaed cyn mis Ebrill 2008 eu hadolygu a'u diweddaru o fewn system Coetiroedd Gwell i Gymru er mwyn sicrhau bod y graddau risg yn berthnasol yn hytrach nag yn rhai sy'n cael eu pennu'n 'isel' fel mater o reol.

2 Mae PRINCE2 yn ddull rheoli prosiect generig o safon y diwydiant y gellid ei deilwra i brosiectau penodol.

# Prif adroddiad

## Bodlonodd y prosiect yr amodau lefel uchel ar gyfer arian yr UE ond oherwydd gwendidau yng ngofynion penodol cynllun Cydcoed cynyddodd y risg na fyddai'r ymgeisydd yn cynrychioli'r gymuned mewn gwirionedd

### Bodlonodd y grant i Calon yr amodau lefel uchel ar gyfer arian yr UE

1.1 Nododd cais y Comisiwn i WEFO o ran Cydcoed feini prawf ac amcanion lefel uchel y cynllun. Cymeradwyodd WEFO y cais am wariant cymwys o £13.7 miliwn a dyfarnwyd grant o £4,210,077. Mae'r llythyr cynnig gan WEFO yn disgrifio'r meini prawf cymhwysedd, ac yn benodol, yn nodi eitemau o wariant nad ydynt yn gymwys o ran arian grant.

1.2 Ym mis Gorffennaf 2006, cyflwynodd Calon gais llawn am Cydcoed i'r Comisiwn am £502,000 i helpu i brynu coetir Ffynone a Chilgwyn. Cymeradwyodd y Comisiwn y cais ym mis Medi 2006 a thalwyd y grant mewn dau randaliad ym mis Hydref a mis Tachwedd 2006.

1.3 Gan fod y gwariant yn ymwneud â phrynu coetir a hynny yng ngogledd sir Benfro (o fewn ardal Amcan 1), bodlonodd y grant ofynion lefel uchel llythyr cynnig WEFO ynglŷn ag arian yr UE.

### Roedd y grant i Calon yn bodloni amodau cynllun Cydcoed ond ni nodwyd y diffiniad o 'grŵp cymunedol' yn glir

1.4 Cyhoeddodd y Comisiwn nifer o ganllawiau at ddefnydd darpar ymgeiswyr a gweithdrefnau mewnol at ddefnydd mewnol ei staff. Nododd y canllawiau hyn na fyddai'r Comisiwn yn cynnig grantiau i '*unitary authorities, government agencies, Wales-wide non-governmental organisations, profit-making organisations or individuals*'. Roedd yn ofynnol bod '*all community groups receiving Cydcoed funds have a formal structure and stated objects. As a minimum, the group must have a formal constitution. In some cases we will ask for the community group to be incorporated*.' Fodd bynnag, nid eglurodd y Comisiwn mewn unrhyw ddogfen beth oedd 'grŵp cymunedol' ym marn y Comisiwn ar gyfer asesu ceisiadau grant gan ei fod yn dymuno denu amrywiaeth eang o ymgeiswyr yn fwriadol. Tybiodd y Comisiwn fod Calon yn 'grŵp cymunedol' cymwys ar y sail mai sefydliad nid-er-elw ydyw, sy'n gyfyngedig drwy warant wedi'i leoli yn y gymuned leol.

1.5 Felly, gallai Calon, sef cwmni preifat, fel pob ymgeisydd arall, gael 100 y cant o arian i brynu'r coetir heb gyfrannu unrhyw arian ei hun na rhannu unrhyw risgiau.



1.6 Hefyd, mae arian pellach ar gael iddo drwy werthu coed ar y tir a thrwy grant cymeradwy ychwanegol drwy gynllun Coetiroedd Gwell i Gymru. Mae cais Calon yn datgan mai ei fwriad yw i ailfuddsoddi yr arian a gafwyd dros ben yn ôl fewn i'r coetir.

1.7 Ni welwyd unrhyw dystiolaeth gennym i awgrymu nad yw Calon yn cadw at ei ymrwymiad i ailfuddsoddi yn y coetir. Er bod ei erthyglau cymdeithasu yn nodi mai sefydliad nid-er-elw yw Calon, nid yw hyn yn atal ei berchenogion rhag cael taliadau o gydnabyddiaeth resymol a bonysau. Gan mai dim ond cyfrifon cryno y mae angen i'r cwmni eu cyflwyno i Dŷ'r Cwmnïau, nid yw'n bosibl adolygu faint o'r incwm a gynhyrchwyd gan y cwmni sydd wedi cael ei ailfuddsoddi yn y coetir.

**Cynyddodd risgiau'r prosiect am fod meini prawf y cynllun yn caniatáu i Calon geisio cyfraniad digonol gan y gymuned ar ôl i'r grant gael ei ddyfarnu**

1.8 Mae cais cymeradwy'r Comisiwn i WEFO am arian Cydcoed yn nodi mai nod Cydcoed oedd cefnogi 'grwpiau cymunedol' a'i bod yn ofynnol *'all people in the community should be able to enjoy woodlands. All people in the community should be able to participate in decision making about how they are used, and in their creation, improvement and management.'*

1.9 Rhoddodd y Comisiwn ganllawiau ategol i ymgeiswyr Cydcoed, a roddodd ragor o wybodaeth i'w helpu i gwblhau pob adran o'u ceisiadau. Mae'r canllawiau ar gyfranogiad a chefnogaeth gymunedol yn nodi *'you must demonstrate that the project meets the aspirations of local residents for their community and that they are participating in the project or that it includes work to gather more evidence or support and generate more participation'*.

1.10 Nid yw cais Calon yn cynnig tystiolaeth o gefnogaeth gymunedol ar y pryd, ond mae'n nodi gweithgareddau yr oedd yn bwriadu ymgymryd â hwy er mwyn sicrhau cefnogaeth a chyfranogiad cymunedol yn y dyfodol. Hefyd, mae cais Calon yn tynnu sylw at y ffaith ei fod yn disgwyl ychydig o wrthwynebiad lleol i'w gynlluniau.

1.11 Ni chynhaliwyd ymgynghoriad cyhoeddus cyn i'r grant gael ei ddyfarnu ac ni chadarnhaodd y Comisiwn faint o gefnogaeth oedd ymhlith y gymuned leol cyn cymeradwyo'r cais. Fodd bynnag, yn ddiweddarach derbyniwyd llythyrau o gefnogaeth gan bedwar grŵp, a oedd wedi'u lleoli yng ngorllewin Cymru ar y cyfan.

1.12 Mae Rheolwr Rhaglen Cydcoed wedi derbyn bod y methiant i ymgynghori â'r cyhoedd yn gamgymeriad sylfaenol gan nodi bod yr hepgoriad hwn wedi ei gydnabod yn llawn ac yn agored.

1.13 Yn 2008, comisiynodd y Comisiwn ymgynghorydd annibynnol i adolygu'r prosiect yn sgîl pryderon a godwyd gan y gymuned leol nad oedd yn cael ei chynnwys. Cost yr ymgynghoriaeth hon oedd £8,000 a dalwyd hefyd gan gyllideb Cydcoed.

1.14 Daeth yr ymgynghorydd i'r casgliad bod gwahaniaeth barn yn gyffredinol, gyda'r gymuned ehangach yn poeni llai am y gwaith yn y coetir, cyhyd â'u bod yn gallu cerdded yno. Mewn gwrthgyferbyniad â hynny, mae llawer o'r bobl sy'n byw'n agos i'r coetir yn anfodlon ar y gwaith a gynhaliwyd. Ymhlith yr ymatebwyr hyn roedd canfyddiad o ddiffyg cyfathrebu a thryloywder ar ran Calon, yn ogystal â'r Comisiwn, mewn nifer o achosion a theimlent nad oedd neb wedi ymgynghori â hwy yn effeithiol nac wedi'u cynnwys. Deallwn er y bu ymdrechion i ymgysylltu â'r gymuned lleol, nid ydynt wedi profi i fod yn arbennig o lwyddiannus.

**1.15** Fel cwmni cydweithredol i weithwyr, mae aelodaeth Calon yn gyfyngedig i weithwyr yn unig ac mae penderfyniadau ynglŷn â rheoli'r coetir yn gyfyngedig i Fwrdd Rheoli'r cwmni yn unig, sy'n cynnwys tri o bobl yn unig. Felly, er y bydd ymgynghori â'r gymuned leol yn y dyfodol o bosibl, yn y pen draw nid yw'n gallu dylanwadu ar ganlyniadau i'r un graddau ag sy'n digwydd yn achos grŵp cymunedol etholedig.

## Roedd rhai o weithdrefnau Cydcoed yn ddiffygiol ac ni chafodd rhai o'r gweithdrefnau a oedd ar waith eu cymhwyso'n gadarn, gan arwain at gymeradwyo cais a fethodd â bodloni holl ofynion y cynllun na lliniaru risgiau i fuddsoddiad cyhoeddus sylweddol yn llawn

### Roedd gweithdrefnau ar waith ond roeddent yn annigonol i sicrhau annibyniaeth, tystiolaeth i ategu ceisiadau, rheoli risg a diogelu arian yn y dyfodol

Roedd gweithdrefnau ffurfiol ar gyfer sicrhau annibyniaeth ar waith ar gyfer uwch reolwyr y Comisiwn, ond ni chawsant eu cymhwyso at swyddogion prosiect

**1.16** Mae aelodau o'r cyhoedd wedi mynegi pryderon ynglŷn â didueddrwydd ac annibyniaeth y swyddog prosiect a benodwyd gan y Comisiwn i asesu, prosesu a monitro cais Calon am grant. Hefyd, codwyd pryderon eraill o ran cynnig Calon i roi cwrs hyfforddiant i'r swyddog am bris sy'n is na chyfradd arferol y farchnad.

**1.17** Rydym wedi gweld gohebu dros yr e-bost, sy'n awgrymu 'perthynas agos' rhwng y ddau barti. Mae'r Comisiwn yn mynnu bod y swyddog prosiect wedi hysbysu ei reolwr llinell ac aelodau eraill o'r tîm grantiau am ei berthynas waith flaenorol cyn iddo ddechrau ymwneud â'r cais. Fodd bynnag, nid oes tystiolaeth ffurfiol o'r datganiad hwn.

**1.18** Nododd gweithdrefnau a chanllawiau Cydcoed y dylai swyddogion prosiect weithio gyda grwpiau cymunedol i helpu i baratoi ceisiadau am arian. Fodd bynnag, nid oedd canllawiau ar y lefel briodol o gymorth y dylid ei roi i ddangos tegwch i ymgeiswyr. Hefyd, er bod rheolwr prosiect ar waith, nid oes tystiolaeth o adolygiad annibynnol i sicrhau bod y lefel o gymorth a roddwyd yn briodol ar gyfer ceisiadau penodol.

**1.19** Ni welwyd unrhyw dystiolaeth gennym nad oedd perthynas y swyddog prosiect dan sylw â Calon ond yn berthynas broffesiynol, a oedd yn adeiladu ar ei gysylltiadau blaenorol. Fodd bynnag, credwn fod diffyg gweithdrefnau ffurfiol yn llywodraethu annibyniaeth ar y pryd wedi amlygu'r Comisiwn i risgiau diangen. Mae ganddo gofrestr o fuddiannau ar gyfer aelodau ei Fwrdd Rheoli. Fodd bynnag, tan yn ddiweddar ni fu trefniant tebyg i weddill y staff. Mae'r Comisiwn bellach wedi cyflwyno cofrestr ar gyfer staff Grantiau a Rheoleiddio.

**1.20** Hefyd, ceir tystiolaeth nad yw'r gweithdrefnau sydd ar waith mewn cysylltiad â rhoddion a lletygarwch wedi'u dilyn. Mae gan y Comisiwn Bolisi Rhoddion a Lletygarwch i'r staff sy'n nodi:

- **a** Bod yn rhaid i bob cynnig o rodd a lletygarwch (ac eithrio rhoddion bach a nodir mewn mannau eraill yn y polisi) sy'n cael eu derbyn ai peidio, gael eu cofnodi'n ysgrifenedig gan y swyddog dan sylw.



**b** Nid oes angen cofnodi cynnig/derbyn rhoddion bach nawr ac yn y man megis ysgrifbinnau, na rhoddion tymhorol bach megis dyddiaduron neu galendrau. Ond mae'n rhaid i bob cynnig arall o rodd gael ei gofnodi, p'un a yw'n cael ei dderbyn ai peidio.

**1.21** Ni chofnododd y swyddog prosiect gynnig Calon o gwrs hyfforddiant yn ffurfiol yn unol â'r Polisi Rhoddion a Lletygarwch. Hefyd, ni cheir tystiolaeth bod y swyddog prosiect wedi hysbysu rheolwr llinell priodol am y cynnig. Rydym wedi cadarnhau na dderbyniwyd y cynnig.

## Nid oedd gweithdrefnau yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion y Comisiwn sicrhau bod ceisiadau am arian wedi'u hategu gan dystiolaeth briodol

**1.22** Er nad yw gweithdrefnau Cydcoed yn ei gwneud yn ofynnol i swyddogion prosiect ddilysu a chadarnhau datganiadau a wneir gan ymgeiswyr yn eu ceisiadau, deallwn fod y Comisiwn yn cynnal gwiriadau fel arfer. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi cadarnhau na ddilyswyd datganiadau yn achos Calon am fod y cais yn ymwneud â phrynu tir.

**1.23** Ers hynny mae pryderon wedi cael eu codi gan aelodau o'r cyhoedd ynglŷn â rhai o'r datganiadau a wnaed gan Calon yn ei gais. Mae'r rhain yn cynnwys profiad blaenorol Calon o reoli coetir a'i fethiant i gael caniatadau cynllunio priodol cyn dechrau ar waith.

**1.24** Mae'r Comisiwn yn mynnu nad oedd datganiadau Calon am ei brofiad o reoli coetir na chaniatadau cynllunio wedi effeithio ar y penderfyniad i ddyfarnu'r grant am mai grant i brynu coetir yn unig ydoedd ac nad oedd yn ymwneud ag unrhyw waith i'w gynnal yn y dyfodol.

**1.25** O ystyried maint a natur y cais, credwn y dylai profiad perthnasol fod wedi chwarae rhan yn y broses o benderfynu ar gymhwysedd cais Calon. Mae'n siomedig na wnaed gwiriadau ffurfiol ac na cheisiwyd geirdaon.

**1.26** Mae gan y Comisiwn fel y corff dyfarnu grantiau sy'n dyfarnu £502,000 o arian cyhoeddus rôl i sicrhau bod gwiriadau priodol wedi'u gwneud cyn iddo ddyfarnu arian. Gallai prosesau craffu cadarnach fod wedi amlygu problemau posibl gyda'r prosiect ac wedi rhoi cyfle i reoli risgiau'n fwy effeithiol.

## Roedd gweithdrefnau corfforaethol a gweithdrefnau rheoli risgiau prosiect yn annatblygedig

**1.27** Cyfeiriodd ein hastudiaeth gwerth am arian genedlaethol ar *Gweithrediadau Comisiwn Coedwigaeth Cymru* a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2008 at angen i wella'r diwylliant rheoli risg drwy'r sefydliad.

**1.28** Roedd cynllun Cydcoed yn rhagddyddio'r adroddiad hwnnw ac mae'r trefniadau rheoli risg yn adlewyrchu'r diwylliant annatblygedig a geid ar y pryd. Yn benodol, yn achos cynllun Cydcoed, cyfyngedig oedd y canllawiau rheoli risg i swyddogion.

**1.29** Paratowyd yr asesiad risg gan y swyddog prosiect a oedd yn cynorthwyo Calon i baratoi ei gais am arian. Ni cheir tystiolaeth o adolygiad annibynnol gan swyddog arall i sicrhau bod yr asesiad yn gadarn a bod pob risg bosibl wedi cael ei hystyried.

**1.30** Roedd yr asesiad risg yn un fras iawn ac roedd yn cynnwys gradd risg amhriodol ('risg ganolig') yn ein barn ni am gais am grant o natur a maint cais Calon.

**1.31** Fodd bynnag, gan fod Calon yn gwneud cais am fwy na £250,000 trosglwyddodd tîm grantiau Cydcoed y cais i grŵp dirprwyedig o Fwrdd Rheoli'r Comisiwn er mwyn iddo adolygu a'i gymeradwyo yn unol â

gweithdrefnau Cydcoed. Bu hon yn rheolaeth gydbwysol er i ni ddod o hyd i broblemau eraill o ran cadernid y broses hon fel y'u nodwyd ym mharagraffau 1.42 a 1.43.

### Nid oedd telerau'r contract y cytunwyd arnynt gyda Calon yn ddigon penodol i ddiogelu'r arian cyhoeddus a ddyfarnwyd a defnydd y gymuned o'r coetir ar ddiwedd y prosiect

**1.32** Roedd contract safonol ar waith ar gyfer ceisiadau cymeradwy Cydcoed a oedd yn gofyn i ymgeiswyr gydymffurfio â thelerau ac amodau'r cynllun am gyfnod o 10 mlynedd (neu 20 mlynedd yn achos tir a brynwyd).

**1.33** Noda'r contractau fod yn rhaid i'r tir gael ei ddefnyddio at y dibenion a ddisgrifiwyd yn y cais am gyfnod o 20 mlynedd ac oni chydymffurfir â'r telerau ac amodau efallai y bydd yn rhaid ad-dalu'r grant cyfan neu ran ohono. Fodd bynnag, methodd y Comisiwn â theilwra'r contractau safonol at amgylchiadau penodol Calon. Yn benodol, roedd llawer o'r telerau ac amodau yn amherthnasol i brynu tir ac felly roedd y telerau ac amodau yr oedd angen cydymffurfio â hwy yn rhai cyfyngedig.

**1.34** Hefyd, nid yw'r contract safonol y cytunwyd arno gyda Calon yn cynnig camau diogelu cyflawn i ddiogelu'r buddsoddiad cyhoeddus yn y meysydd canlynol:

- **a** Ni osodir cyfyngiadau pellach ar ymgeiswyr ar ôl 20 mlynedd. Fel y cyfryw, ni warentir y caiff y gymuned ddefnyddio'r ased hwn ar ôl y dyddiad hwn. Fodd bynnag, rydym ar ddeall bod Calon wedi ymrwymo i gyflwyno'r safle o dan Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy (CRoW)[3] a ddylai ganiatáu mynediad cyhoeddus i'r coetir am byth.
- **b** Os caiff Calon ei roi yn nwylo'r gweinyddydd ni chaiff perchenogaeth gyhoeddus o'r coetir ei diogelu, gwendid a gydnabuwyd gan y Comisiwn mewn cyfarfodydd cyhoeddus a gynhaliwyd â'r gymuned.
- **c** Er bod y contractau yn ei gwneud yn ofynnol i arian grant gael ei ad-dalu os caiff yr ased ei werthu o fewn cyfnod o 20 mlynedd, nid yw'r contractau yn cynnwys unrhyw gymalau sy'n ymwneud â chyfyngiadau ar unrhyw elw y gellid ei wneud yn y dyfodol o werthu'r ased. Fel y cyfryw, gallai Calon, a'i aelodau, wneud elw sylweddol heb orfod digolledu pwrs y wlad pe bai gwerthiant yn y dyfodol.

## Ni chafodd gweithdrefnau a oedd ar waith i asesu ceisiadau am grant, risg a gwerth am arian eu cymhwyso'n gadarn

### Ni cheisiwyd tystiolaeth benodol o werth am arian gan fod y Comisiwn yn credu bod hyn ymhlyg yn y cais

**1.35** Roedd canllawiau Cydcoed yn ei gwneud yn ofynnol i ymgeiswyr roi tystiolaeth o werth am arian. Ni chynhaliodd y Comisiwn asesiad gwerth am arian o brosiectau Cydcoed ar gyfer ceisiadau unigol nac mewn cymhariaeth â cheisiadau dilys eraill Cydcoed.

**1.36** Mae'n achos pryder arbennig i ni fod y Comisiwn wedi methu â chomisiynu prisiad tir annibynnol i gadarnhau rhesymoldeb prisiad y tir ac wedi methu â dilysu'r prisiad annibynnol a gafodd Calon gan Goedwigwr Siartredig drwy ddefnyddio priswyr cymwysedig y Comisiwn.

3 Mae Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn gymwys i Loegr a Chymru yn unig. Mae’r Ddeddf yn darparu ar gyfer mynediad cyhoeddus ar droed i fathau penodol o dir, mae’n diwygio’r gyfraith sy’n ymwneud â hawliau tramwy’r cyhoedd, mae'n cynyddu mesurau ar gyfer rheoli a gwarchod ar gyfer Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig ac yn cryfhau’r deddfwriaeth gorfodi bywyd gwyllt, ac yn darparu ar gyfer rheoli gwell o Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol.



### Mae'r Comisiwn wedi rhoi gordaliad o £6,000 i Calon drwy beidio â dilyn ei weithdrefnau ei hun yn briodol

**1.37** Yn ôl canllawiau Cydcoed *'[the FCW will] fund the cost of buying land, including woodland up to market value determined by an independent qualified valuer'*.

**1.38** Cafodd Calon brisiad annibynnol, a oedd yn rhoi pris ar y coetir a oedd £6,000 yn llai na'r pris gwerthu. Fodd bynnag, talodd y Comisiwn y grant ar sail y pris gwerthu, ac nid y prisiad annibynnol fel sy'n ofynnol o dan ei weithdrefnau. Felly gwnaeth y Comisiwn ordaliad o £6,000 i Calon.

### Nid oedd trefniadau asesu prosiectau yn gadarn

**1.39** Sefydlodd y Comisiwn is-grŵp o'r Bwrdd Rheoli i asesu ceisiadau dros £250,000. Roedd yr is-grŵp yn cynnwys pedwar Pennaeth Gwasanaeth a oedd yn aelodau o Fwrdd Rheoli'r Comisiwn.

**1.40** O ganlyniad, trosglwyddodd tîm grantiau Cydcoed gais Calon i'r is-grŵp i'w adolygu a'i gymeradwyo. Fodd bynnag, ni chyfarfu'r is-grŵp i drafod y cais a bu'r holl ohebiaeth drwy negeseuon e-bost rhwng pedwar aelod y tîm.

**1.41** Drwy weithredu felly ni chafwyd craffu digonol, ffaith a gydnabyddir gan y Comisiwn. Mae'r Comisiwn wedi nodi y bydd prosiectau yn y dyfodol yn dilyn methodoleg PRINCE2 ac mae wedi sefydlu bwrdd prosiect ffurfiol a fydd yn cyfarfod yn rheolaidd.

### Nododd is-grŵp y Bwrdd Rheoli risgiau nad ymdriniwyd â hwy yn llawn cyn i'r prosiect gael ei gymeradwyo

**1.42** Nododd is-grŵp y Bwrdd Rheoli nifer o bryderon/risgiau fel rhan o'i adolygiad o gais Calon. Fodd bynnag, nid ymdriniwyd â'r risgiau hyn yn ddigonol cyn i'r cais gael ei gymeradwyo. Mae'r materion a godwyd gan is-grŵp y Bwrdd Rheoli yn cynnwys:

- **a** **Gwaredu'r ased o bosibl yn y dyfodol a'r angen am gamau diogelu priodol yn y contract â Calon.** Nododd y swyddog prosiect fod erthyglau cymdeithasu Calon yn ymdrin â'r pwynt hwn. Derbyniwyd ei ymateb ond roedd y methiant i ymdrin â'r risg hon yn y contract yn wendid sylfaenol.
- **b** **A yw'r grant yn rhoi gwerth am arian.** Ar wahân i ddibynnu ar y prisiad a gafwyd gan Calon, ni chynhaliwyd unrhyw asesiad gwerth am arian (gwirioneddol neu mewn cymhariaeth â cheisiadau eraill). Ni welir unrhyw holi dilynol ynglŷn â'r mater hwn gan y Bwrdd Rheoli.
- **c** **Yr angen i'r Comisiwn gael prisiad annibynnol o'r coetir yn unol â gweithdrefnau Cydcoed naill ai'n allanol neu drwy werthwyr tir cymwysedig y Comisiwn ei hun.** Rydym wedi amlygu o'r blaen fethiant y Comisiwn i sicrhau ei brisiad annibynnol ei hun. Yna derbyniodd is-grŵp y Bwrdd Rheoli y prisiad annibynnol a gafodd Calon.

**1.43** Pe bai'r is-grŵp wedi codi ei bryderon eto, mae'n bosibl y byddai sawl un o'r risgiau sylfaenol sydd wedi dod i'r golwg ers hynny wedi cael eu trafod a'u rheoli yn gynt yn y broses gwneud cais.

### Methodd y Comisiwn â diffinio ei ofynion penodol a derbyniodd gynllun busnes annigonol fel un a oedd yn bodloni amod arbennig dyfarnu'r grant

**1.44** Fel amod arbennig dyfarnu'r grant, roedd y Comisiwn yn ei gwneud yn ofynnol i Calon gyflwyno cynllun busnes erbyn 31 Mawrth 2007. Er i Calon wneud hyn erbyn y terfyn amser, ym marn y Comisiwn roedd y cynllun yn annigonol a gofynnodd i Calon baratoi cynllun cadarnach. Cyflwynwyd y cynllun hwn i'r Comisiwn ar ddechrau 2009.

1.45 Fodd bynnag, methodd y Comisiwn â diffinio'n benodol yr hyn yr oedd ei angen ar ffurf cynllun busnes. Derbyniodd fod y cynllun cyntaf a gyflwynwyd gan Calon wedi bodloni amod y grant erbyn y dyddiad penodol, er i'r cynllun hwn fod yn annigonol yn wreiddiol.

Yn gyffredin i gynlluniau eraill yr UE, roedd pwysau i gynnal proffil gwariant Cydcoed, ond nid oes tystiolaeth uniongyrchol bod hyn wedi dylanwadu ar y penderfyniad i gymeradwyo cais Calon

1.46 Mae llythyr cynnig grant WEFO yn pwysleisio bod angen i'r Comisiwn wario ei ddyraniad grant neu wynebu'r perygl y gall golli'r arian a ddyfarnwyd. Mae hwn yn ofyniad safonol ym mhob cynllun.

1.47 Mae aelodau o'r cyhoedd wedi codi pryderon bod y llythyr cynnig hwn wedi rhoi pwysau ar y Comisiwn i gadw at sefyllfa wedi'i chyllidebu yn erbyn proffil ariannu WEFO y cytunwyd arno. Eu dadl yw oherwydd bod cais Calon yn drafodyn mawr a chymharol syml (prynu tir) a allai gael ei brosesu'n gyflym, ei fod wedi cael ei ystyried yn ffafriol er mwyn cadw at y proffil cyllidebol. Yn benodol, cyfeiriant at danwariant o tua £700,000 ym mis Tachwedd 2008 fel y cyhoeddwyd ar wefan y Comisiwn.

1.48 Gan fod y Comisiwn wedi monitro cyllideb Cydcoed ar sail dreigl, nid oes gwybodaeth gyllidebol benodol ar gael i ni ei hadolygu bellach. Ni allwn gadarnhau a oedd pwysau penodol i gadw at y sefyllfa gyllidebol yn erbyn y proffil ariannu ar adeg cais Calon.

1.49 Fodd bynnag, rydym wedi gweld gohebiaeth gan Reolwr Rhaglen Cydcoed dyddiedig 7 Awst 2007, a nododd *'as many projects are falling behind in their progress, the rate of Cydcoed grant spend is well below that predicted to our funders. If slippage continues, we risk having the overall amount of grant reduced.'*

1.50 Felly roedd pwysau i sicrhau bod gwariant Cydcoed yn unol â'r proffil y cytunwyd arno gyda WEFO i atal y Comisiwn rhag colli arian grant. Cais Calon ym mis Medi 2006 oedd y grant mwyaf o fewn Cydcoed ac fe'i proseswyd yn gymharol gyflym. Gallai hyn, ynghyd â'r diffyg craffu cadarn a ddisgrifiwyd eisoes, awgrymu i'r cais gael ei drin yn ffafriol. Fodd bynnag, gwadodd swyddogion y Comisiwn yn daer unrhyw awgrym bod y cais wedi cael ei brosesu'n gyflym yn fwriadol neu heb ystyriaeth briodol.

## Ansicr yw'r cynnydd yn erbyn targedau a'r canlyniadau arfaethedig ar hyn o bryd

**Mae'r Comisiwn bellach yn monitro perfformiad Calon yn erbyn targedau a chanlyniadau Cydcoed y cytunwyd arnynt, ond hyd yma ansicr yw'r canlyniadau**

1.51 Nid oedd gofyniad gan WEFO i fonitro targedau na buddiannau hirdymor ar ôl i'r cynllun ddod i ben. Mae'r Comisiwn wedi cyfeirio at ddiffyg canllawiau a chymorth ariannol ychwanegol gan WEFO i hwyluso'r gwaith monitro ar ôl i'r cynllun ddod i ben. Yn benodol, er bod WEFO wedi monitro targedau ariannol ac alldro'n fanwl yn ystod cyfnod y grant ac wedi gofyn am adroddiad cwblhau i derfynu'r cynllun, nid oedd gofyniad i fonitro canlyniadau na thargedau ar ôl i'r cynllun ddod i ben, sef rhywbeth a wneir yn ôl disgresiwn y sefydliadau sy'n derbyn grantiau.



1.52 Mae'r Comisiwn wedi rhoi ei drefniadau ei hun ar waith i fonitro grantiau unigol a ddyfarnwyd er mwyn sicrhau cydymffurfiaeth â'r targedau a bennwyd a thelerau ac amodau'r contract. Yn benodol, mae'r Comisiwn wedi nodi yng nghontractau Cydcoed y caiff grantiau eu monitro am gyfnod o 10 mlynedd ar ôl i'r cynllun ddod i ben (20 mlynedd yn achos ceisiadau i brynu tir) er mwyn sicrhau y cydymffurfir â thelerau ac amodau a nodwyd yn y contract gan gynnwys targedau y cytunwyd arnynt.

1.53 Mae adroddiad cwblhau prosiect y Comisiwn ar Calon yn nodi amserlen gwaith monitro sydd i'w wneud bob dwy flynedd o 2008 i 2020. Fodd bynnag, nid yw hyn yn cwmpasu'r cyfnod llawn o 20 mlynedd a bennwyd gan y Comisiwn ar gyfer ceisiadau i brynu tir. Ers hynny mae'r Comisiwn wedi cymryd camau i unioni'r camgymeriad gweinyddol hwn.

1.54 Roedd yn ofynnol i geisiadau am grant gynnwys targedau a buddiannau hirdymor y gellid monitro allbynnau a chanlyniadau yn eu herbyn. Nododd y canllawiau i ymgeiswyr ar gwblhau'r cais y dylai ymgeiswyr sicrhau bod buddiannau hirdymor yn rhai 'syml a hawdd eu monitro'. Mae'r targedau a bennwyd ar gyfer y cais hwn yn adlewyrchu hyn:

- **a** mynediad cyhoeddus dirwystr i'r coetir;
- **b** Cynllun Rheoli Coetir ar waith ac yn cael ei weithredu;
- **c** llwybrau mynediad ar waith ac yn cael eu cynnal a'u cadw;
- **ch** busnes coetir sy'n datblygu.

1.55 Yn ein barn ni, o ystyried lefel yr ariannu a nodweddion y grant hwn, dylai'r targedau a'r buddiannau hirdymor fod wedi bod yn gadarn ac yn heriol yn ogystal â bod yn rhai syml a hawdd eu monitro. Mewn ymateb, dadl y Comisiwn yw *'Cydcoed EU and Assembly Government funded capital programme was time-limited, as was the team established to deliver it and that it was known from the outset that all subsequent monitoring would need to be undertaken by existing FCW staff as an extra task. As a result, it was planned that the system would be as straightforward as possible, making it more likely to be done.'*

1.56 Mae'r Comisiwn wedi dechrau ar ei raglen fonitro ac wedi edrych ar chwe grant Cydcoed hyd yma, gan gynnwys Calon. Gan mai grant Calon oedd y grant mwyaf o dan gynllun Cydcoed, rhoddwyd blaenoriaeth i fonitro'r grant hwn a hwn oedd y grant cyntaf i'w fonitro ym mis Chwefror 2010.

1.57 Cynhaliwyd y gwaith monitro gan gontractwr annibynnol ar ran y Comisiwn. Mae'r contractwr hwn ar restr y Comisiwn o Gynllunwyr Rheoli Coetiroedd Gwell i Gymru cymeradwy ac mae'n un o'r contractwyr cymeradwy ar gyfer arolygu cynlluniau Coetiroedd Gwell i Gymru. Mae'r Comisiwn wedi ein hysbysu iddo osod y gwaith hwn ar gontract allanol oherwydd prinder staff ac mai staff y Comisiwn fydd yn monitro'r rhan fwyaf o grantiau Cydcoed.

1.58 Er nad oedd gan y contractwr unrhyw brofiad blaenorol o'r cynllun, ni roddodd y Comisiwn unrhyw ganllawiau penodol ynglŷn â sut i gofnodi'r gwaith monitro. Hefyd, mae'r Comisiwn wedi cadarnhau nad yw wedi adolygu'r gwaith a wnaed i sicrhau bod y safon yn gyson â'r hyn a ddisgwylir fel arfer o ran monitro cynlluniau. Fodd bynnag, mae'r Comisiwn wedi adolygu'r adroddiad monitro a ddarparwyd gan y contractwr.

1.59 Mae'r adroddiad monitro ei hun yn fyr ac nid oes cysylltiad clir â'r targedau a bennwyd ar gyfer Calon. O ganlyniad nid yw'n rhoi casgliad ar bob targed unigol nac yn gyffredinol. Cydnabuwyd y methiant hyn yn adolygiad y Comisiwn o'r arolygiad cyntaf hwn ac mae wedi tynhau'r broses ac wedi datblygu ffurflen arolygu newydd.

1.60 Mae adroddiad y contractwr yn gwneud rhai sylwadau yr ymddengys nad ydynt yn ategu'r farn bod Calon wedi bodloni ei dargedau hyd yma. Yn benodol, mae'r adroddiad yn gwneud y sylwadau canlynol mewn perthynas â mynediad:

a *'It was noted that despite significant injection of public funding and the statement that 'increased access for the community and disabled' was part of the business plan, there was no signage at any of the entrances to inform the public of the facility or the fact that it was supported by public funds. Interpretation panels and way-markers were not evidenced.'*

b *'A public footpath had been blocked by wind-blown trees on the edge of one of the clearfell sites and this had not been reopened despite the damage having taken place some time ago.'*

1.61 Hefyd, ymddengys bod yr adroddiad yn ymdrin â rhai elfennau sy'n ymwneud â chynllun Coetiroedd Gwell i Gymru. Cyfeiria at *'significant clearfell'* a *'significant element of track building and upgrading'* yr ymddengys i'r gwaith gael ei wneud i safon uchel sy'n ei gwneud yn bosibl i loriau gyrraedd llawer rhan o'r eiddo. Nid ymddengys bod hyn yn gyson â sylwadau Calon yn ei gais, a nododd *'with input of a large grant to help purchase the woodland, the need to generate vast quantities of cash to service loans would be reduced or eliminated allowing a much gentler clearance operation to be implemented'*.

1.62 Ystyria'r Comisiwn fod Calon yn cyflawni ei dargedau hyd yma ac nad yw problemau megis rhwystr ar un llwybr yn gyfystyr â chyfyngiad arwyddocaol ar fynediad dirwystr a bod graddfa'r cymynu coed yn adlewyrchu gweithrediadau coetir a nodwyd yng Nghynllun Rheoli dilynol Coetiroedd Gwell i Gymru.

1.63 Yn ein barn ni, erys yn ansicr o hyd o'r adroddiad bod targedau Cydcoed wedi cael eu cyflawni hyd yma ac felly dylai gwaith monitro yn y dyfodol roi casgliad cliriach yn erbyn pob targed er mwyn osgoi camddehongli'r canlyniadau.

## Bodlonodd Calon y meini prawf cymhwysedd ar gyfer arian arall o dan Coetiroedd Gwell i Gymru, ond yn ôl arolygiad diweddar gan y Comisiwn nid oedd Calon wedi cydymffurfio'n llawn â'r gofynion a chaiff peth o'r arian ei adhawlio

### Bodlonodd Calon y meini prawf cymhwysedd ar gyfer arian Coetiroedd Gwell i Gymru

1.64 Ceir dau ofyniad allweddol ar gyfer arian Coetiroedd Gwell i Gymru:

a mae'n rhaid bod ymgeiswyr yn berchen ar y coetir;

b mae'n rhaid bod cynllun rheoli pum mlynedd cymeradwy ar waith.

1.65 Mae perchnogion sydd am ymuno â'r cynllun yn cael cymorth proffesiynol drwy gymorth grant gan gynllunwyr rheoli cymwysedig i baratoi'r cais cychwynnol, cynllun sylfaen, ac wedyn gynllun rheoli pum mlynedd terfynol.



**1.66** Ar ôl i gynllun rheoli gael ei gymeradwyo a'i lofnodi gan y perchennog, dyfernir contract sy'n nodi'n fanwl y gwaith sydd i'w wneud bob blwyddyn a'r grantiau sy'n daladwy am bob darn o waith. Mae Coetiroedd Gwell i Gymru yn caniatáu i'r perchennog ychwanegu gweithrediadau newydd cyhyd â'u bod yn helpu i gyflawni canlyniadau'r perchennog ac ad-drefnu gweithrediadau ar gyfer blwyddyn newydd, yn ôl disgresiwn y Comisiwn. Ategir y cynllun pum mlynedd gan weledigaeth 20 mlynedd ar gyfer rheoli'r coetir.

**1.67** Yna cafodd Calon gymeradwyaeth ar 31 Mawrth 2008 am arian ychwanegol ar gyfer gwaith gwella o dan gynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru ar ôl i gynllun rheoli gael ei gyflwyno a'i gymeradwyo. Yn dilyn newidiadau i'r gymeradwyaeth gychwynnol, cymeradwywyd cyfanswm grant o £236,117. Mae'r Comisiwn yn talu'r arian hwn i Calon wrth i'r gwaith gael ei gwblhau yn unol â'r cynllun rheoli cymeradwy.

**1.68** Felly bodlonodd Calon y telerau ac amodau allweddol a oedd yn ofynnol i gael arian Coetiroedd Gwell i Gymru.

### Mae'r Comisiwn yn bwriadu gwella trefniadau i fesur a monitro canlyniadau Coetiroedd Gwell i Gymru fel yr argymhellwyd gennym o'r blaen

**1.69** Cyfeiriodd ein hadroddiad cenedlaethol ar y Comisiwn a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2008 at wendidau ym mhrosesau monitro cynllun grant Coetiroedd Gwell i Gymru. Yn benodol, nodwyd y canlynol:

**a** Dim ond ers 2007 mae Coetiroedd Gwell i Gymru wedi bod yn weithredol – mae natur coetiroedd yn golygu y gall canlyniadau'r cynllun gymryd amser i ddod yn amlwg. Er hynny, mae angen i'r Comisiwn ddatblygu cyfres o ddangosyddion perfformiad ar gyfer ei gynlluniau grant sy'n mesur ac yn rhoi adroddiad ar gynnydd yn erbyn canlyniadau, yn hytrach na pherfformiad yn erbyn agweddau ar broses, megis yr ardal o goetir a gwmpesir gan gynlluniau a gwariant arnynt. Mae'r Comisiwn yn cydnabod bod angen o hyd iddo nodi'r ffordd fwyaf priodol o fesur canlyniadau Coetiroedd Gwell i Gymru, a phennu dangosyddion perthnasol.

**b** Er mwyn sicrhau ei fod yn cyflawni dangosyddion perfformiad allweddol perthnasol, mae angen i'r Comisiwn ddeall yn well y rhwystrau a brofir gan ymgeiswyr wrth fynd ati i gyflwyno cynllun rheoli wedi'i lunio'n llawn a rhoi cymorth priodol.

**1.70** Mae trafodaethau gyda'r Comisiwn yn cadarnhau bod y materion hyn yn berthnasol o hyd, ond mae eisoes wedi datblygu nifer o ddangosyddion cynllun grant mewn ymateb i'n hadroddiad cynharach. Mae ganddo raglen tair blynedd i weithredu'r argymhellion a geir yn yr adroddiad cenedlaethol ac mae argymhellion Coetiroedd Gwell i Gymru yn cael eu cynnwys i'w gweithredu'n llawn erbyn 2010-11. Rydym wedi cytuno, fel rhan o'n gwaith archwilio cyffredinol yn y Comisiwn, i ddilyn ar yr argymhellion a godwyd yn ein hadroddiad cenedlaethol dros gyfnod o dair blynedd yn dechrau yn 2010.

Mewn ymateb i bryderon y cyhoedd ynglŷn â gwaith a wnaed yng Nghoetir Ffynone a Chilgwyn, cynhaliodd y Comisiwn arolygiad ffurfiol a arweiniodd at adhawlio peth o grant Coetiroedd Gwell i Gymru oddi wrth Calon

**1.71** Caiff grantiau Coetiroedd Gwell i Gymru eu talu arôl i ymgeiswyr gadarnhau bod y gweithiau yn unol â chynllun gweithrediadau a nodwyd yn y Cynlluniau Rheoli wedi cael eu cynnal. Mae'r cynllun gweithrediadau yn nodi'n fanwl y gwaith sydd i'w wneud bob blwyddyn a'r grantiau sy'n daladwy am bob darn o waith. Hefyd, mae cynlluniau rheoli yn cynnwys gweledigaeth hirdymor wedi'i hategu gan nodweddion a ffactorau a ddymunir gyda lefelau targed ar gyfer pob nodwedd. Diffinnir nodweddion fel pethau yn y goedwig y gellid eu mesur a'u monitro i sicrhau bod rheolwyr yn llwyddo. Caiff y rhain eu monitro fel arfer yn adolygiad y cynllun ond mewn nifer fechan o achosion bydd angen gwneud rhai o'r gwaith monitro yn y cyfnod cynllunio.

**1.72** Mae'r Comisiwn wedi cadarnhau, er nad yw cynlluniau rheoli yn cael eu monitro ar y pryd, y caiff camau gweithredu eu hasesu ar ddiwedd y cynllun.

**1.73** Mae adolygiad y Comisiwn i ganfod a yw gwaith ar safle penodol yn cydymffurfio â'r cynllun rheoli wedi'i gwmpasu gan raglen o arolygiadau a gynhelir ar sail sampl yn unol â gofynion y Rheoliadau Datblygu Gwledig. Nid yw'r Comisiwn yn adolygu'r gwaith cyn y daliad oni bai fod yr hawliad yn syrthio o fewn y sampl a ddewisir ar gyfer arolygiad.

**1.74** Mae'r Comisiwn yn arolygu pump y cant o hawliadau a ddewisir ar sail risg. Cyflwynwyd y sail risg ar gyfer dewis sampl ym mis Ebrill 2008; fodd bynnag, mae ceisiadau a ddaeth i law cyn y dyddiad hwn wedi cael eu cofnodi yn y system Coetiroedd Gwell i Gymru yn rhai ac iddynt 'risg isel' fel mater o reol. Nid yw'r Comisiwn wedi ailasesu'r hawliadau hyn er mwyn sicrhau bod graddau risg priodol wedi'u cynnwys o fewn y system.

**1.75** Felly mae angen mireinio'r ffordd y cynhelir arolygiadau Coetiroedd Gwell i Gymru ar sail risg er mwyn sicrhau y caiff pob hawliad a wnaed cyn mis Ebrill 2008 ei ddiweddaru drwy asesiad risg priodol er mwyn cael samplu effeithiol.

**1.76** Gan fod cynllun rheoli Calon yn rhagddyddio mis Ebrill 2008, cofnodir graddau risg ar gyfer ei hawliadau'n rhai 'risg isel'; fel mater o reol. Cadarnhawyd mewn trafodaethau â Swyddog Coetir y Comisiwn y byddai cais Calon wedi cael ei asesu'n un ac iddo risg ganolig fwy na thebyg pe bai wedi gwneud cais ar ôl mis Ebrill 2008. Fodd bynnag, ni fyddai'r radd risg ddiwygiedig hon yn arwain o reidrwydd at arolygiad o gofio mai dim ond sampl o bump y cant a ddewisir ac y byddai hawliadau risg uchel yn cael blaenoriaeth.

**1.77** Nid oedd y Comisiwn wedi arolygu grant/cynllun rheoli Coetiroedd Gwell i Gymru Calon o ystyried i'w risg gael ei gofnodi'n risg isel. Fodd bynnag, o ystyried pryderon y cyhoedd ynglŷn â'r arian a'r gwaith yng Nghoetir Ffynone a Chilgwyn, mae'r Comisiwn wedi penderfynu y dylid cynnal arolygiad ffurfiol o'r gwaith.

**1.78** O ganlyniad i hynny arolygwyd y gwaith gan y Comisiwn ym mis Ebrill 2010 er mwyn sicrhau ei fod yn gyson â'r hyn a nodwyd yn y rhestr o waith y cytunwyd arni yng Nghynllun Rheoli cymeradwy Coetiroedd Gwell i Gymru.

**1.79** Canfu'r arolygiad fod y rhan fwyaf o'r gwaith gwerth £193,681 a hawliwyd neu y talwyd amdano wedi cael ei gwneud. Fodd bynnag, bwriedir adhawlio'r swm o £20,010 yn llawn neu'n rhannol am nad oedd Calon wedi cydymffurfio â'r holl restr o waith neu ran ohoni ar gyfer y gweithrediadau penodol hyn.